# CYNGOR CYMUNED LLANWINIO COMMUNITY COUNCIL

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanwinio nos Fercher y 5ed o Dachwedd 2025 am 8.00pm yn Neuadd Llanwinio.

**PRESENNOL**: Cynghowyr Huw James (Cadeirydd), Iori Saer, Dorian Lewis, Wyn Evans, Elgan Williams, Christopher Smoothy & Y Cynghorydd Sir Jean Lewis

**YMDDIHEURIADAU**: Y Cynghorydd Sarah Pask

**CYMHERWYD Y COFNODION GAN Y CLERC**: Liza Jones

**2: COFNODION**: Roedd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 3ydd o Fedi 2025 wedi ei dosbarthu cyn y cyfarfod, fe'u derbyniwyd a'u cofnodi fel rhai cywir.

**3. DATGAN BUDD:** Dim

**4: MATERION YN CODI:**
Roedd arwydd newydd i'r parc wedi cael ei osod.
Roedd Dŵr Cymru yn ymweld a Chae Blaenwaun i osod offer lleihau dŵr ble'n briodol.
Roedd y Cyngor Sir wedi rhoi offer diogelwch o amgylch cwlfert agor ger Blanffynnon ond roedd agen gwaith atgyweirio brys yno i atal difrod a dirywiad pellach.
Nid oedd yr arolwg diogelwch wedi ei gwblhau ar y Parc ac byddai'r clerc yn cwrsio'r cwmni i fyny.

**5: GOHEBIAETH:**

**A** – Derbynwiyd ebost wrth berchnogion Post House, Cwmbach yn nodi pryder nad oedd yr afon Sien wedi ei lanhau ger pont Cwmbach ers 2023. Yn dilyn glaw ofnadwy ddoe, roedd llifogydd wedi digwydd yno. Byddai'r Cynghorydd Sir yn gofyn i'r Cyngor Sir gydweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru i lanhau'r afon yn flynyddol.

**B** – Roedd CaThEM wedi danfon dirwyon am gyflwyno ffurflennu hwyr ond roedd y clerc wedi apelio yn dweud nad oedd modd cyflwyno'r ffurflennu yn gynt gan nad oeddent hwy wedi danofn côd dilysu mewn amser felly roedd CaThEM wedi dileu y dirwyon.

**6: DERBYNIADAU:**
Llôg - £14.60
Rhent – Rhydcaernarfon - £375.60
Rhent – Tyddyn - £488.40
Rhent – Blaengors - £1042.80

**7: BILIAU:**
Charlie Jackson – £50.00
Un Llais CYmtu – Hyfforddiant - £40.00
Banc Lloyds - £4.25 x 2 (talwyd d/u)

Awdurdodwyd i'r anfonebau cael eu talu drwy trosglwyddiad banc.

**8: ADRODDIAD ARIANNOL:**

| | |
|---|---|
| Cyfrif Busnes | £3,073.43 |
| Cyfrif Trysorydd | £13,957.57 |
| **Cyfanswm o** | **£17,031.00** |

**9: CYNLLUNIO:** Dim

**10: Unrhyw fater arall:**

Roedd y Clerc wedi cysylltu gyda'r Cyfreithiwr am ddiweddariad ond heb dderbyn ymateb.
Nodwyd fod y gwaith ffensio wedi ei gwblhau ar y cae chwarae ond roedd angen clo ar gyfer y storfa newydd.
Roedd y bin halen wedi cael ei ad-newyddu ger Fferm Lion.
Nodwyd nad oedd y clawdd wedi cael ei dorri ger Pwllrhedyn ac fod gwifren Ffôn yn gorwedd ar y clawdd ger Blaenffynnon yn golygu n afedir torri'r clawdd.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fercher y 7fed o Ionawr 2026 am 8:00pm yn Neuadd Gymunedol Llanwinio.**